PWYLLGOR CRAFFU IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

DYDD MAWRTH, 24 IONAWR 2023

PRESENNOL Cynghorydd H.A.L Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

B.A.L. Roberts	B. Davies	K. Davies	H. Jones

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

M. Donoghue	A. Evans	D. Owen	F. Walters
P.T. Warlow	J. Williams		

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
A. Williams, Pennaeth Y Gwasanaethau Integredig
A. Rees, Pennaeth Strategaeth a Chymorth i Ddysgwyr
G. Adams, Prif Rheolwr Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
S. Nolan, Cyfrifydd Grŵp
A. Thomas, Gyfrifydd Grwp
R. Robertshaw, Cydgysylltydd Amddiffyn Plant
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau

Siambr - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 - 11.25 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd M.James.

Ar ran y Pwyllgor roedd y Cadeirydd wedi cydymdeimlo â'r Cynghorydd M. James yn dilyn salwch a phrofedigaeth diweddar yn y teulu.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

Y Cynghorydd	Rhif(au) y Cofnod	Y Math o Fuddiant
A. Evans	**5.** Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf 2022/23 **6**. Ymgynghori Ynghylch Strategaeth y Gyllideb Refeniw	Mae ei fam yn gweithio yn Adran y Prif Weithredwr - Uned Gwasanaethau Democrataidd.

	2023/24 i 2025/26	

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch unrhyw chwip waharddedig.

3. CWESTIYNAU CYHOEDDUS

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

[**SYLWER**: Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor, yn unol â Rheol 2(3) o Weithdrefn y Cyngor, ei bod yn mynd i newid trefn y materion ar yr agenda er mwyn ystyried eitem 8 - Diweddariad Strategaeth Gofal Cartref cyn eitem 4 - Cynllun Rheoli Cyfiawnder Ieuenctid].

4. CYNLLUN RHEOLI CYFIAWNDER IEUENCTID 2022/2023

Cafodd Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2022/23 ei gyflwyno i'r Pwyllgor.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth a phartneriaeth a oedd wedi arwain at ddatblygu'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid, a nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad, yn unol â gofynion deddfwriaethol Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

Roedd y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid yn amlinellu'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid a'r Tîm Cyfiawnder Ieuenctid a ddarparwyd o dan un strwythur rheoli, a oedd yn darparu dull cyfannol o ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid ledled Sir Gaerfyrddin. Roedd adran 8 o'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid yn manylu ar berfformiad y bartneriaeth yn ystod 2021/22, a hefyd yn nodi'r blaenoriaethau a'r amcanion cynllunio gwelliannau am y flwyddyn i ddod, yn unol â'r egwyddorion 'plentyn yn gyntaf' cyffredinol ac ethos o welliant parhaus.

Ar ran y Pwyllgor, cymeradwyodd y Cadeirydd waith ac ymrwymiad hanfodol y bartneriaeth a'r staff sy'n gweithio yn y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid a gofynnodd a oedd unrhyw waith yn cael ei wneud ynghylch dibyniaeth ar hapchwarae. Eglurwyd bod tîm penodol yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau a oedd yn gweithio'n uniongyrchol i roi cymorth neu os oedd angen cymorth pellach gallai unigolion gael eu cyfeirio at asiantaethau eraill fel rhan o'r trefniadau gweithio aml-asiantaeth.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2022/23 yn cael ei dderbyn.

5. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2022/23

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 31 Hydref 2022, mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2022/23.

Rhagwelid y byddai Iechyd a Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn gorwario £5,358k o ran y gyllideb refeniw ac y byddai yna -£199k o amrywiant net yn erbyn y gyllideb gyfalaf oedd wedi'i chymeradwyo ar gyfer 2022/23.

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y pwysau cyllidebol sylweddol ar Wasanaethau Plant ac Anableddau Dysgu.

Codwyd y cwestiynau / sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:

- Gofynnwyd a oedd angen darparu Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir. Dywedwyd wrth y Pwyllgor mai'r opsiwn a ffefrir bob amser fyddai i'r Sir roi cymorth a bod gwaith wedi'i wneud yn y tîm maethu i ehangu'r opsiynau cymorth sydd ar gael i osgoi defnyddio Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir.
- Gofynnwyd a fyddai'r gefnogaeth arbenigol i'r 2 berson ifanc ag anghenion cymhleth iawn yn ofyniad tymor hir gan y nodwyd bod gorwariant o £579k yn y maes hwn ar hyn o bryd. Dywedwyd bod anghenion yr unigolion hyn ar y pecynnau gofal yn eithafol ac yn sylweddol ac yn anffodus nid oedd modd darparu hyn yn y Sir ar hyn o bryd. Yn ogystal, roedd cynnydd wedi bod yn nifer y lleoliadau ac oherwydd tanwariant yn y maes hwn yn y blynyddoedd blaenorol nid oedd cyllideb ar gael.
- Cyfeiriwyd at y gorwariant ar staff asiantaeth. Dywedodd swyddogion fod polisi recriwtio a chadw staff ar waith a bod cryn dipyn o waith wedi ei wneud o ran lleihau nifer y gweithwyr cymdeithasol o asiantaethau. Dywedwyd mai defnyddio staff asiantaeth fyddai'r eithriad, ac nid y norm.
- Gofynnwyd am y wybodaeth ddiweddaraf am y mentrau a oedd ar waith ar gyfer recriwtio a hyfforddi gweithwyr cymdeithasol. Dywedodd swyddogion fod hyn yn farchnad gystadleuol iawn a bod nifer cyfyngedig o weithwyr gofal cymdeithasol cymwys. Yn ogystal â'r Academi Gofal a lansiwyd gan yr Awdurdod, roedd recriwtio tramor hefyd yn cael ei ddefnyddio ac roedd dau unigolyn o Nigeria wedi'u penodi'n amodol ar gwblhau gwiriadau cyn cyflogaeth.
- Gofynnwyd i swyddogion beth oedd cost ychwanegol staff asiantaeth o'i gymharu â staff llawn amser. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y cyfraddau fesul awr yn amrywio'n sylweddol ond bod un pwynt cyswllt bellach yn ei le yn y tîm Gwasanaethau Plant ac Oedolion i gynnal trafodaethau ynghylch y cyfraddau fesul awr gydag asiantaethau.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

6. YMGYNGHORI YNGHYLCH STRATEGAETH Y GYLLIDEB REFENIW 2023/24 TAN 2025/26

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Strategaeth Cyllideb Refeniw y Cyngor 2023/24 i 2025/26 a oedd yn rhoi golwg gyfredol ar y gyllideb refeniw ar gyfer 2023/2024 ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2024/25 a 2025/26. Roedd yr adroddiad yn seiliedig ar ragamcanion y swyddogion ynghylch gofynion gwariant, ac roedd yn rhoi ystyriaeth i'r setliad amodol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 14 Rhagfyr 2022.

Pwysleisiwyd er bod llawer o waith eisoes wedi'i wneud wrth baratoi'r gyllideb, dywedwyd mai datganiad sefyllfa cychwynnol oedd yr adroddiad hwn a fyddai'n cael ei ddiweddaru yn dilyn y broses ymgynghori. Yn unol â hynny, atgoffwyd Aelodau bod yr adroddiad wedi'i ystyried gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 9 Ionawr

2023 a bod aelodau'r Pwyllgor wedi mynychu digwyddiadau ymgynghori yn ddiweddar, a oedd yn rhoi cyfle i ddadansoddi a chael eglurhad ynghylch gwahanol agweddau ar y gyllideb.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y byddai cynigion terfynol y gyllideb yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ganol/diwedd Chwefror, a fyddai'n galluogi cyflwyno cyllideb gytbwys i'r Cyngor Sir ar 1 Mawrth 2023. Fodd bynnag, oherwydd yr oedi yn y setliad dros dro, a'r effaith ganlyniadol ar gwblhau'r gyllideb gan Lywodraeth Cymru, ni fyddai'r setliad terfynol yn cael ei gyhoeddi tan 7 Mawrth 2023.

Nododd yr adroddiad, ar ôl addasiadau ar gyfer trosglwyddiadau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, mai 8.5% (£26.432 miliwn) oedd y cynnydd yn y setliad dros dro ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Roedd y Cyllid Allanol Cyfun wedi cynyddu felly i £338.017 miliwn yn 2023/24. Er bod y setliad yn gynnydd sylweddol o'r ffigwr dangosol o 3.4%, roedd y model ariannol yn rhagweld gofyniad i arbed £20m dros gyfnod o dair blynedd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Nodwyd bod £7.9m o gyllid ychwanegol wedi'i gyhoeddi ar gyfer Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg a'i ddosrannu i Lywodraeth Leol gan arwain at gynnydd o 8.5% i'r Awdurdod.

Nodwyd bod pwysau chwyddiant yn drymach nag y bu ers degawdau ac y byddai'r cynnydd anochel mewn costau yn arwain at gwtogi cyllidebol. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi grantiau penodol ar gyfer lefel Cymru ochr yn ochr â'r setliad dros dro. Roedd y rhain yn weddol debyg o ran gwerth arian i'r blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, gyda'r cynnydd mewn chwyddiant a'r codiadau cyflog ar y lefel bresennol roedd yna doriadau gwirioneddol.

Dywedodd llythyr y Gweinidog bod cyllid wedi'i ddarparu i dalu am y cynnydd yn y cyflog byw a bod yr holl gyllid wedi'i ddyrannu. Byddai cost llawn codiadau cyflog yn y dyfodol yn gorfod cael eu darparu'n lleol. Mae wedi bod yn heriol wrth lunio'r gyllideb gan nad oedd y rhagdybiaethau o ran cyflogau a chwyddiant a oedd wedi'u haddasu yn ddigonol i ddarparu cyllid i adrannau.

Atgoffwyd aelodau, pan osodwyd y gyllideb yn flaenorol, 4% oedd y codiad cyflog y cytunwyd arno ar y pryd. Cytunwyd ar gynnydd cyflog i'r rhan fwyaf o staff ar un gyfradd o 2K (sy'n cyfateb i 7.1% ar gyfartaledd) ar draws y gweithlu. Byddai angen cynnwys 3.1% ychwanegol i gyllideb y flwyddyn nesaf. Cyfeiriwyd at y cynnydd o 5% i Athrawon y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru fodd bynnag, cydnabuwyd bod aelodau'r Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU) wedi pleidleisio o blaid gweithredu'n ddiwydiannol mewn ymgais i gael codiad cyflog o 12%. Nododd y Pwyllgor fod y gyllideb ddrafft yn cynnwys y "catchup" o 1% i 5%, ond ni fyddai unrhyw gynnydd pellach wedi ei ariannu a byddai'n cynrychioli pwysau ariannol ychwanegol o oddeutu £1m ar gyfer pob cynnydd o 1% mewn cyflog. Fel cyfanswm, byddai'r cyflog tybiedig yn ychwanegu £19m at gyllideb y Cyngor y flwyddyn nesaf

Nodwyd mai'r strategaeth dros y blynyddoedd blaenorol oedd cynyddu ffioedd a thaliadau yn unol â'r gyfradd chwyddiant oedd yn bodoli ac roedd y gyllideb ddrafft yn cynnig cynnydd o 10% lle bo hynny'n bosibl. Roedd trigolion wedi cael eu gwahodd i gyflwyno eu barn am hyn fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod Atodiad C yn dangos £12m tuag at y cynnydd mewn pwysau a nodwyd gan yr adrannau a nad oedd modd osgoi hyn os oedd yr Awdurdod am barhau i ddarparu gwasanaethau ar y lefel bresennol.

Dangosodd atodiad Aii gynnydd sylweddol o ran chwyddiant mewn cost gofal a ddarparwyd, twf demograffig yn ogystal â chynnydd mewn lwfansau maethu. Nodwyd bod y pwysau a oedd eisoes ar Ofal Cymdeithasol i Oedolion wedi'i gyfyngu i'r hyn yr oedd modd ei ddarparu yn weithredol ym marn y Cyfarwyddwr, wrth ystyried y pwysau presennol ar y gweithlu ar draws y sector cyfan.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth gyllidebol fanwl ganlynol a oedd wedi'i hatodi i'r Strategaeth ac a oedd yn berthnasol i'w faes gorchwyl:-

- **Atodiad A(i) -** Crynodeb effeithlonrwydd ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- **Atodiad A(ii) -** Crynodeb Effeithlonrwydd ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- **Atodiad B -** Adroddiad monitro'r gyllideb ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- **Atodiad C** - Crynhoad Taliadau ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Ar ran y Pwyllgor mynegodd y Cadeirydd ei gwerthfawrogiad am y gwaith yr oedd y tîm wedi'i wneud wrth gynhyrchu'r gyllideb ddrafft ac wrth gynnal y Seminar diweddar ar y Gyllideb lle'r oedd y Pwyllgor wedi cael cyfle i ofyn cwestiynau.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

6.1 Bod yr Ymgynghoriad ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 - 2025/26 yn cael ei dderbyn;

6.2 Bod y Crynhoad Taliadau a nodir yn Atodiad C yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo.

7. ADRODDIAD PERFFORMIAD CWARTER 2 - 2022/23 (01/07/22-30/09/22) YN ARBENNIG I'R PWYLLGOR CRAFFU HWN

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi 2022 (Chwarter 2), a oedd yn nodi'r cynnydd a wnaed gogyfer â'r camau gweithredu a'r mesurau yn y Strategaeth Gorfforaethol a'r 13 Amcan Llesiant a oedd yn berthnasol i faes gorchwyl y Pwyllgor.

Nododd y Pwyllgor mai dim ond 3 o'r 13 amcan oedd yn heb gyrraedd y targed ac roedd yn gwerthfawrogi bod hyn yn rhannol oherwydd y pandemig a oedd wedi arwain at garfan o blant nad oedd wedi cael eu gweld na'u hasesu'n gynnar. Rhoddwyd sicrwydd bod y tîm atal bellach yn gallu gweithio'n agosach gyda theuluoedd a bod y sefyllfa wedi gwella.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

8. DIWEDDARIAD STRATEGAETH GOFAL CARTREF

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad yr oedd wedi gofyn amdano yn ymwneud â'r pwysau presennol ar ofal cartref, a'r effaith yr oedd hyn yn ei chael ar ryddhau cleifion o ysbytai. Bwriad yr adroddiad oedd rhoi sicrwydd bod cleifion yn cael cefnogaeth ddiogel i adael yr ysbyty ac roedd yn amlinellu'r pwysau a sut roedd Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymateb i'r pwysau hynny.

Roedd y canlynol ymhlith y cwestiynau/sylwadau a godwyd ynghylch yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch sut roedd yr Awdurdod yn cynyddu hyblygrwydd contractau a sut y byddai hyn yn effeithio ar gysondeb y ddarpariaeth o ran gofal, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol fod hyn yn cael effaith ar gysondeb y gofal a hefyd ar y gallu i ddarparu gofal ar yr adeg orau o ran pryd roedd angen ac eisiau'r gofal ar bobl. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod yr adroddiad yn nodi'r hyn yr oedd yr Awdurdod yn ei wneud i liniaru materion cyflenwi a sicrhawyd y Pwyllgor fod yr Awdurdod yn sicrhau nad oedd y gofal a ddarparwyd yn effeithio ar ddiogelwch. Dywedwyd bod sefyllfa gyffredinol ynghylch hyblygrwydd y gofal a bod sgyrsiau anodd yn gorfod digwydd gyda theuluoedd ac unigolion ynghylch pa opsiynau ymarferol o ofal oedd ar gael. Mewn rhai achosion, byddai'n rhaid cyfaddawdu ynghylch y pecyn gofal delfrydol ond byddai hyn dal yn well nag aros yn yr ysbyty. Nodwyd bod tua 50 o unigolion mewn gofal preswyl dros dro ar hyn o bryd, y dylai'r mwyafrif ohonynt gael cymorth gartref. Cafodd y sefyllfa ei disgrifio fel un deinamig a bod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud dros yr wythnosau diwethaf, ond roedd y sefyllfa'n parhau i fod yn anodd. Dywedwyd bod yr Awdurdod yn ceisio cynnig contractau mwy hyblyg yn hytrach na'r rotâu anhyblyg traddodiadol i gynorthwyo gyda recriwtio a chadw staff.
- Mynegwyd pryder y byddai'r cytundebau hyblyg yn arwain at ddiffyg parhad yn y gofal gydag unigolion yn cael nifer o wahanol ofalwyr. Dywedwyd er bod nifer o bobl o bosibl yn darparu gofal gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod hyn yn cael ei gadw i'r un grŵp o bobl. Cydnabuwyd bod y parhad hwn o fudd i'r unigolyn oedd yn derbyn y gofal ac i'r gofalwr.
- Hefyd gofynnwyd am eglurhad ynghylch y defnydd o feicrofentrau Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y cynllun eisoes yn cael ei ddefnyddio yn Sir Benfro a'i bod yn ddyddiau cynnar iawn i Sir Gaerfyrddin. Megis dechrau oedd y cynllun gyda'r nod o gynorthwyo ardaloedd lle'r oedd yn anodd cael gofal cartref yn draddodiadol. Dywedwyd bod yr Awdurdod wrthi'n recriwtio aelod o staff i arwain ar y fenter.
- Gofynnwyd a oedd pwysau ar yr Awdurdod i flaenoriaethu rhyddhau cleifion mewn ysbytai dros y rhai oedd eisoes yn aros am becynnau gofal. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod pwysau cyson o ran cydbwyso rhyddhau cleifion o ysbytai a rhestrau aros cymunedol a'i fod yn anochel y byddai'r rhai yn y gymuned yn aros yn hirach oherwydd yr angen i flaenoriaethu rhyddhau cleifion o ysbytai. Er gwaethaf y capasiti cyfyngedig, roedd pobl a oedd yn byw gartref ac yn aros i'r gwasanaethau gofal cartref ddechrau yn cael eu rheoli, gyda'r rhai a oedd yn y categori coch yn cael blaenoriaeth ar unwaith.

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch pa gymorth ymarferol fyddai'n cael ei gynnig i aelodau'r teulu a oedd yn camu i'r adwy i ddarparu gofal a sut y byddai ansawdd y gofal a ddarperir ganddynt yn cael ei fonitro, dywedwyd y byddai aelodau'r teulu yn derbyn hyfforddiant priodol ac asesiad codi a chario.
- Cyfeiriwyd at ddatblygu'r Academi Gofal ac os byddai'r cyfyngiadau cyllidebol yn effeithio ar ei sefydlu. Dywedwyd bod academi gofal a lansiwyd gan yr awdurdod yn targedu disgyblion chweched dosbarth gyda'r gobaith o ennill cymhwyster lefel gradd. Dywedwyd bod cyfres o unigolion o safon uchel gyda'r gwytnwch, yr hyder, a'r wybodaeth ofynnol i fynd ar y trywydd tuag at hyfforddiant proffesiynol gobeithio. Cydnabuwyd bod sefydlu'r academi yn cymryd amser ac nad oedd cyfyngiadau cyllidebol yn effeithio ar yr academi.
- Gofynnwyd a oedd yr Awdurdod yn mynd i gynyddu nifer y gwelyau cam i lawr yn y Sir. Dywedwyd bod y Bwrdd Iechyd wedi comisiynu 15 o welyau ychwanegol ar sail tymor byr a bod 14 o welyau gan yr Awdurdod yng nghartref gofal Llys y Bryn (Tŷ Pili Pala). Roedd ysbytai cymunedol yn cael eu defnyddio hefyd gyda 28 gwely yn Nyffryn Aman a 14 gwely yn ysbyty Llanymddyfri. Cydnabuwyd bod angen capasiti ychwanegol yn y gymuned ac fel model roedd yn gweithio'n dda gyda gwell canlyniadau i unigolion. Cytunwyd bod angen lledaeniad daearyddol, fodd bynnag roedd hyn yn gyfyngedig i'r capasiti mewn cartrefi gofal.
- Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariadau rheolaidd ynglŷn â gofal cartref a chynnydd gyda'r Bwrdd Iechyd. Cytunwyd y byddai diweddariadau'n cael eu cynnwys yn awtomatig mewn adroddiadau perfformiad a monitro data.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

9. CYNLLUN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU IECHYD & GWASANAETHAU CYMDEITHASOL AR GYFER 2022/23

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ei Flaengynllun Gwaith a baratowyd yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgorau Craffu ddatblygu a chyhoeddi blaengynllun gwaith bob blwyddyn gan glustnodi materion ac adroddiadau sydd i'w hystyried mewn cyfarfodydd yn ystod blwyddyn y cyngor.

Nodwyd, oherwydd penderfyniad y Cyngor ym mis Medi 2022 i ddiwygio cylchoedd gwaith y pwyllgorau craffu, roedd y Pwyllgor wedi ailedrych ar ei flaengynllun mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Ionawr. Cytunodd y Pwyllgor ar yr eitemau i'w hystyried yn y cyfarfod heddiw a'r eitemau ar gyfer 9 Mawrth 2023:

Nododd y Pwyllgor y diffyg adroddiadau o ran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaeth Plant ar Flaengynllun y Cabinet a chytunodd i gwrdd eto ar 17 Chwefror i ystyried unrhyw adroddiadau perthnasol a ychwanegwyd ers hynny.

Cytunodd y Pwyllgor y byddai dal angen diweddariad ar Unigrwydd (Adroddiad Gorchwyl a Gorffen) yn unol â'i Flaengynllun blaenorol. Gellid dosbarthu hyn y tu allan i'r cyfarfod.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai Cynllun Busnes yr Adran Gymunedau 2021/22 - 23-24 a oedd fod i gael ei ystyried yn wreiddiol gan y Pwyllgor ar 24 Ionawr yn debygol o gael ei ohirio eto wrth i Gynlluniau Adrannol ar wahân gael eu hailddatblygu. Byddai hyn yn cael ei gadarnhau'n ddiweddarach

PENDERFYNWYD yn UNFRYDOL y dylid cadarnhau Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2022/23 a'i gyflwyno i gyfarfod mis Mawrth i'w gymeradwyo'n ffurfiol.

10. EGLURHAD AM BEIDIO A CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU.

Cafodd y Pwyllgor esboniad dros beidio â chyflwyno'r adroddiadau craffu canlynol:

- Cynllun Busnes
- Adroddiad Blynyddol ynghylch Amcanion Llesiant

PENDERFYNWYD nodi'r eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad.

11. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 5ED HYDREF, 2022

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 5 Hydref 2022 gan eu bod yn gywir.

_____ _____

CHAIR **DATE**